

Rhaglen Ebrill / Medi 2011

Gwirfoddolwyr

Gwasanaeth Cefn Gwlad Sir Ddinbych



Croeso

Mae yna ystod o gyfleoedd i chi gymryd rhan yng ngwaith Gwasanaeth Cefn Gwlad Sir Ddinbych – ac mae arnom angen eich help! O'r Rhyl a Phrestatyn yn y gogledd ar hyd Frynau Clwyd i Hiraethog a Dyffryn Dyfrdwy yn y de – gallwch ymuno'n achlysurol neu bob wythnos – chi piau'r dewis.

Bydd tasgau'n amrywio o blannu coed i godi waliau cerrig sychion, adeiladu llwybrau i greu cynefinoedd bywyd gwyllt. Ni does angen profiad blaenorol – fe roddir hyfforddiant ac mae croeso i chi weithio'n ôl eich cyflymder eich hun.

I gael hwn mewn fersiynau Braille, print mawr neu dâp ffoniwch am ddim ar 0800 243980



Brynau Clwyd
Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol

I gael gwybodaeth bellach cysylltwch â:

Pharc Gwledig Loggerheads – 01352 810614

Gogledd Sir Ddinbych (Y Rhyl) – 01745 356197

De Sir Ddinbych (Llangollen) – 01978 869618

Cyngor Iechyd a Diogelwch

Fe wnaiff y Gwasanaeth Cefn Gwlad ddarparu'r holl ddillad diogelwch sy'n angenrheidiol. Cofiwch wisgo esgidiau cryfion efo gfael da arnyn nhw, cymeradwyir esgidiau mawr efo trwynau esgid dur ar gyfer y rhan fwyaf o swyddi. Dewch â dillad rhag glaw efo chi a chinio pecyn. Mae'n rhaid i rai dan 14 oed fod gyda rhiant/gwarcheidwad. Yn anffodus ni allwn weithio efo plant sydd dan 8 oed.

www.ahnebryniauclwyd.org.uk
www.cefngwladsirddinbych.org.uk

Yn Wylt yn Ninas Brân

Eleni rydyn ni'n gobeithio cynnal cyfres o arolygon bywyd gwyllt a llystyfiant yng Nghastell Dinas Brân. Bydd darganfod beth yn union sy'n byw ac yn tyfu yno'n ein helpu i flaenoriaethu gwaith rheoli yn y dyfodol. Cadwch lygad am y digwyddiadau hyn yn y misoedd i ddod.

Printiwyd ar inciau llysieul ar bapur sydd wedi'i ddefnyddio'n barod, wedi'i ailgylchu a heb ei gannu.



Brynau Clwyd
Clwydian Range

Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol
Area of Outstanding Natural Beauty



Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Countryside Council for Wales



Dydd Gwener 1 10^{am} – 1^{pm}

Grisiau Llwybr

Gwaith gwella diogelwch sy'n wirioneddol angenrheidiol ar risiau'r llwybr ar hyd silff y chwarel. Cyfarfod: Mount Wood, Dinbych (SJ 047 658)

Dydd Mawrth 5 10^{am} – 3^{pm}

Trwsio Llwybr yn y Gwanwyn

Dewch draw i helpu i wella'r Llwybr Pob Defnyddiwr sydd wedi gwisgo yng Nghoed Nercwys. Cyfarfod: mynedfa'r gogledd (SJ 218 593)

Dydd Iau 7 10^{am} – 2^{pm}

Twmpathau Cynefin

Ymunwch â ni yn y coetir cymunedol ifanc yma i adeiladu'r adnoddau coed marw ar y safle drwy greu twmpathau cynefin i annog mwy o bryfed i'r safle a hynny yn ei dro'n cynnal y poblogaethau adar a mamaliaid bychan.

Cyfarfod: Coed y Morfa, Prestatyn

Dydd Mawrth 12 10^{am} – 3^{pm}

Gwaith Llwybr

Dewch i helpu i greu llwybr newydd ym Maes Parcio Loggerheads. Cyfarfod: Loggerheads.

Dydd Mercher 13 a Dydd Iau 14 10^{am} - 3^{pm}

Trwsio Ffiniau

Trwsio ffensys a waliau o gwmpas Gwarchodfa Natur Leol Moel Findeg
Cyfarfod: mynedfa Ffordd Bryngwyn.
(SJ 204 611)

Dydd Iau 14 10^{am}

Mynydd Llandegla

Dewch i helpu i ailosod rhai o'r trawstiau rheilffordd ar Lwybr Clawdd Offa wrth iddo groesi'r rhostir ffantastig yn Llandegla.
Cyfarfod: Maes Parcio World's End
(SJ 232 484)

Dydd Gwener 15 10^{am} – 1^{pm}

Codi waliau cerrig sychion

Helpwch i greu cefndir muriog o gwmpas un o'r mannau pasio ar y llwybr newydd.
Cyfarfod: Mount Wood, Dinbych. (SJ 047 658)

Dydd Mercher 20 10^{am} – 1^{pm}

Gwelliannau i Gartref

Madfall y Twyni

(oed ieuengaf 15+)

Dewch i'n helpu i wella cynefin madfall y twyni sydd wedi ei ail-gyflwyno i draeth Barkby drwy greu lleiniau moel o dywod ymysg y twyni.
Cyfarfod: maes parcio isaf Traeth Barkby, Prestatyn (SJ 068 839)



Dydd Mercher 20 10^{am}

Rhaeadr Cynwyd

Ymunwch â ni yn y rhaeadr syfrdanol yma i wella'r llwybr drwy'r goedwig. Fe fyddwn yn rhoi arwyddbyst i mewn, yn gwella'r draeniad ac yn tocio.

Cyfarfod: Cilfan Stamp (SJ 060 424)

Dydd Mawrth 26

10.30^{pm} – 2.30^{pm}

Hel Sbwriel

Dewch i fwynhau tro i fyny i'r Tŵr Jiwibili ar ôl prysurdeb Gŵyl y Banc - i hel sbwriel ar y ffordd! Cyfarfod: Maes parcio Bwlch Penbarras. (SJ 162 606)



Mai



Dydd Mawrth 3 10^{am}

Trwsio Llwybr

Rhowch help llaw i wella'r llwybrau sydd wedi gweld cryn draul o fewn y parc! Cyfarfod: Loggerheads.

Dydd Mercher 4 a Dydd Iau 5 10^{am} -3^{pm}

Ffensio Amddiffynnol

Dewch i helpu yn y digwyddiad blynyddol o godi ffens amddiffynnol yn y Gronant. Y llynedd cafodd y fôr-wennol fach dymor eithriadol gyda mwy o barau bridio a chywion bach nag erioed wedi eu cofnodi yn y safle. Cewch wybod ar y diwrnod sut y gallwch helpu'r adar hyn ymhellach.

Cyfarfod yn Nhwyni Gronant (yn y fynedfa i Presthaven)

Dydd Iau 12 10^{am}

Yn Wylt yn Ninas Brân

Mae angen help am hanner cynta'r diwrnod i drawsleoli eithin i geisio atal pobl rhag cymryd llwybr tarw i'r castell.

Yn nes ymlaen rydyn ni'n gobeithio gwneud arolwg llystyfiant i weld pa flodau gwanwyn sy'n ymddangos.

Cyfarfod: Maes parcio Heol-y-Farchnad, Llangollen.

Dydd Iau 12 a

Dydd Gwener 13

10^{am} -3^{pm}



Gwelliannau i Lwybr Clawdd Offa Oherwydd y miloedd o barau o draed sy'n cerdded ar ei hyd yn flynyddol, mae'r rhan yma o Lwybr Clawdd Offa drwy Barc Gwledig Moel Famau angen rhai gwelliannau. Cyfarfod: Maes parcio Bwlch Penbarras (SJ 162 606)

Dydd Mawrth 31 10^{am} – 1^{pm}

Cadwch y rheiliau'n daclus

Helpwch ni i dacluso o gwmpas hen lein y rheilffordd.

Cyfarfod: Gwarchodfa Natur Rhuddlan (SJ 020 777)

Dydd Mawrth 31 10^{am} – 3^{pm}

Codi Waliau Cerrig Sychion

Helpwch ni i ailgodi wal ffin gerrig sy'n ganrifoedd oed o gwmpas Gwarchodfa Natur Leol Moel Findeg

Cyfarfod: mynedfa Ffordd Bryngwyn (SJ 204 611)

Mehefin

Dydd Mercher 1 10^{am} - 3^{pm}

Codi Waliau Cerrig Sychion

Helpwch ni i ailgodi wal ffin gerrig sy'n ganrifoedd oed o gwmpas Gwarchodfa Natur Leol Moel Findeg. Cyfarfod: mynedfa Ffordd Bryngwyn (SJ 204 611)

**Dydd Llun 6, Dydd Mawrth 7
a Dydd Iau 9 10^{am}**

Gwneud Golosg

Rhowch gynnig ar wneud golosg traddodiadol ar lein y cyn reilffordd rhwng Corwen a Chynwyd. Dydd Llun - llenwi'r odyd, dydd Mawrth - goleuo a llosgi, Dydd Iau - bagio'r cynnyrch. Golosg am ddim i bawb fydd yn cyfranogi!
Cyfarfod: Cilfan Stamp (SJ 060 424)

Dydd Mawrth 7 10^{am} - 3^{pm}

Clirio Rhedyn

Dewch i helpu i ddileu'r rhedyn ymledol o'r glaswelltir sy'n rhyngwladol bwysig. Cyfarfod: Loggerheads

Dydd Mercher 8 6^{pm} - 10^{pm}

'Balsam Bash' a Bwffe

Helpwch ni i roi cychwyn da i reolaeth Jac y Neidiwr ar yr afon Alyn. Fe gaiff gwaith caled ei wobrwyo â bwffe wedyn! Welis a menig yn hanfodol! Yn ardal yr Wyddgrug, lleoliad i'w gadarnhau wrth fwcio. Bwcio'n hanfodol, ffoniwch 01352 810614.

Dydd Gwener 10 10^{am} - 1^{pm}

Help i Wella Llwybr

Gwella mynediad ar gyfer pobl sy'n defnyddio llwybr poblogaidd Mount Wood i Galch Hill. Mae wedi elwa eisoes o lwybr bordiau ac yn awr mae angen help i gwblhau'r llwybr. Cyfarfod: Mount Wood, Dinbych (SJ 047 658)

Dydd Mercher 15 10^{am}

Arolwg Planhigion Gro Isa

Dewch draw i fireinio eich sgiliau adnabod blodau gwyllt ac i gynorthwyo efo'n harolwg llystyfiant blynyddol yng Ngro Isa a mwynhau picnic (dewch â'ch picnic eich hun!) ar lannau Afon Dyfrdwy.

Cyfarfod: Maes Parcio'r Pafiliwn Chwaraeon, Corwen (SJ 079 437)

Dydd Mawrth 21 10^{am}

'Balsam Bash'

Mae angen help i ddileu clwstwr trwchus o Jac y neidiwr o lannau Afon Dyfrdwy.

Cyfarfod: Maes Parcio Pafiliwn Chwaraeon, Corwen (SJ 079 437)

Dydd Mawrth 21 10^{am}

Dileu Jac y neidiwr

Helpwch i ddileu'r Jac y neidiwr ymledol o lannau afonydd i ganiatáu i blanhigion tynerach ffynnu! Welis yn hanfodol. Cyfarfod: Loggerheads

Dydd Mercher 22 10^{am} - 3^{pm}

Tacluso Coedfa

Mae angen help i dacluso'r goedfa a thorri'r prysg sy'n llechfeddiannu o gwmpas y coed. Cyfarfod: maes parcio Coed Moel Famau. (SJ 174 613)



Gorffennaf

Dydd Mawrth 5 10^{am} - 3^{pm}

Gwella Mynediad i'r Goedfa

Helpwch i wella mynediad i mewn ac o gwmpas y goedfa yng Nghoed Moel Famau, yn cynnwys rhai gwelliannau i risiau. Cyfarfod: maes parcio Coed Moel Famau. (SJ 174 613)



Dydd Mercher 6 10^{am}

Yn Wylt yn Ninas Brân

Mae angen help i deneuo rhai adrannau o'r rhedyn ar gopa'r castell. Tra byddwn ni yno fe fyddwn yn arolygu'r ardal i weld pa fywyd gwyllt sy'n bresennol. Cyfarfod: maes parcio Heol-y-Farchnad, Llangelollen.

Dydd Iau 7 10^{am} - 1^{pm}

Rheoli Coed

Parhad o'r gwaith ardderchog a wnaethpwyd y llynedd i wella'r goedwig gymunedol hon ar gyfer bywyd gwyllt. Cyfarfod: Coed y Morfa, Prestatyn

Dydd Mawrth 12 7.30^{pm}

Cadw Gwenyn a'r Amgylchedd

Dewch i ymuno â ni ar gyfer sgwrs ddarluniadol efo meistr gwenynwyr am gadw gwenyn a sut y gall rheoli cynefinoedd fod o fudd i wenyn. Gwenyn byw'n cael eu harddangos! Parc Gwledig Loggerheads. Bwcio'n hanfodol, ffoniwch 01352 810614

Dydd Mercher 13

Yn Wylt yn Ninas Brân

Tro gyda'r nos o gwmpas Castell Dinas Brân i weld pa greaduriaid sy'n llechu yn y tywyllwch! Fe fyddwn yn chwilio am wyfynod ac ystumod yn ogystal â magïod. Cyfarfod yn y Felin Flawd am ddiod sydyn am 7^{pm} (opsiynol) cyn anelu am y Castell am 8^{pm}. Dewch â thorth efo chi! Dylid bwcio ar gyfer y digwyddiad hwn gan y bydd yn ddibynnol ar y tywydd. (01352 810614).

Dydd Mercher 13 a

Dydd Iau 14, 10^{am} - 3^{pm}



Codi Waliau Cerrig Sychion

Dewch i helpu i ailgodi adrannau o'r hen waliau ffin cerrig ger y maes parcio ym Moel Arthur efo hyfforddwr cymwysedig. Cyfarfod: Maes parcio Moel Arthur (SJ 147 658)

Dydd Iau 14 10^{am}

'Balsam Bash' Rhan 2!

Ymdrech arall i ddileu'r planhigyn problemus hwn o lannau'r Afon Dyfrdwy. Cyfarfod: Maes parcio'r Pafiliwn Chwaraeon, Corwen (SJ 079 437)

Dydd Mawrth 19 10^{am}

Clirio Prysg

Helpwch i ddileu prysg ymledol o ardaloedd o laswelltir tyner i ganiatáu i blanhigion eraill sy'n dynherach ffynnu! Cyfarfod: Loggerheads.

Dydd Mawrth 19, Dydd Mercher 20 a

Dydd Iau 21 10^{am}

Codi Waliau Cerrig Sychion

Beth am roi cynnig ar – neu wella eich sgiliau o Godi Waliau Cerrig Sychion? Fe fyddwn yn ailgodi rhannau o wal y ffin sy'n gyfagos â Bryngaer Caer Drewyn, felly fe gewch hefyd ddysgu ychydig am y ffordd yr aferai ein hynafiaid fyw yma hefyd! Cyfarfod: maes parcio Canolfan Hamdden Corwen (SJ 068 442)

Dydd Mawrth 26 10^{am} - 1^{pm}

Hen Ffens yn Diflannu

Dewch i helpu i glirio hen ffens i baratoi ar gyfer plygu gwrych. Cyfarfod: Gwarchodfa Natur Rhuddlan (SJ 020 777)



Dydd Iau 4 10^{am} – 1^{pm}

Rheoli coed

Dewch i helpu efo gwaith rheoli coedydd ar safle coedwig gymunedol Parc Bruton i greu cymysgedd o goed fydd yn caniatáu i olau ddod drwodd ar gyfer fflora'r ddaear.

Cyfarfod: diwedd Tarquin Drive (oddi ar Ffordd Bryn Cwnin), y Rhyl

Dydd Mawrth 9fed a

Dydd Mercher 10 10^{am} – 3^{pm}

Codi Waliau Cerrig Sychion

Mae angen help i barhau i ailgodi'r wal ffin ar Foel Famau. Dewch draw i wella neu i ddysgu gyda hyfforddwr profiadol. Cyfarfod: maes parcio Bwlch Penbarras (SJ 174 613)

Dydd Mawrth 16 10^{am}

Dileu Jac y neidiwr

Helpwch i ddileu'r Jac y neidiwr ymwithiol o lannau afonydd i ganiatáu i blanhigion eraill sy'n dynerach ffynnu! Welis yn hanfodol. Cyfarfod: Loggerheads.



Dydd Gwener 19 10^{am} – 1^{pm}

Clirio

Dewch i helpu i glirio o gwmpas ardal Bryn Stanley Mount Wood.


Cyfarfod: Mount Wood, Dinbych (SJ 047 658)

Dydd Mercher 31 10^{am}

Tarren Eglwyseg

Mae angen help i adeiladu rhannau o Lwybr Clawdd Offa wrth iddo groesi ar hyd Darren ysbennnydd Eglwyseg.

Gan fod parcio'n gyfyngedig, cyfarfod ym maes parcio Heol-y-Farchnad, Llangollen am 10^{am} ac fe deithiwn i'r safle o'r fan honno.



Dydd Gwener 2 10^{am} – 1^{pm}

Rheoli Coetir

Helpwch i dorri tyfiant yr haf sydd wedi llechfeddiannu'r coed ifanc a'r llwybrau. Cyfarfod: Mount Wood, Dinbych (SJ 047 658)

Dydd Mawrth 6 10^{am}

Gwaith Llwybrau

Rhowch help llaw i wella'r llwybrau sathredig o fewn y parc yn dilyn haf prysur! Cyfarfod: Loggerheads.

Dydd Mercher 14eg a

Dydd Iau 15, 10^{am} - 3^{pm}

Clorio Prysg

Dewch i helpu i adfer y rhostir grug ar Foel Famau drwy ddileu'r prysg ymwithiol o'r cynefin hwn sy'n rhyngwladol bwysig. Cyfarfod: Maes parcio Bwlch Penbarras (SJ 163 606)



Dydd Mercher 21 a Dydd Iau 22 10^{am}

Trwsio'r Gorffennol

Dewch i'n helpu i drwsio'r fynedfa sydd wedi ei herydu i fryngaer drawiadol Caer Drewyn o'r Oes Haearn. Cyfarfod ym maes parcio Canolfan Hamdden Corwen (SJ 068 442).

Medi 26 10^{am} -3^{pm}

Manion

Dewch draw i roi help llaw efo'r gwelliannau blynyddol i Goed Llangwyfan. Cyfarfod: Maes parcio Coed Llangwyfan (SJ 138 669)



Dydd Mawrth 27 10^{am} – 1^{pm}

Trin Gwrych

Helpwch i docio gwrych aeddfed i greu gwrych gwell, mwy trwchus ar gyfer y flwyddyn nesaf. Cyfarfod: Gwarchodfa Natur Rhuddlan (SJ 020 777)

Dydd Mawrth 27 a Dydd Mercher 28 10^{am}- 3^{pm}

Codi Waliau Cerrig Sychion

Helpwch ni i ailgodi wal ffin sy'n ganrifoedd oed o gwmpas Gwarchodfa Natur Leol Moel Findeg. Cyfarfod: Mynedfa Ffordd Bryngwyn (SJ 204 611)

Parcmyrn Ifanc



Bydd Gwasanaeth Cefn Gwlad Sir Ddinbych yn dechrau Clwb Parcmyrn Ifanc newydd yn 2011.

Ydych chi rhwng 12 ac 16 oed efo diddordeb mewn dysgu am yr amgylchedd a'r bywyd gwyllt ffantastig sydd i'w gael yn Sir Ddinbych - yn ogystal â baeddu yn yr Awyr Agored?!!

Os felly, beth am gael copi o'n Rhaglen Parcmyrn Ifanc newydd? Fe fydd yna sesiynau misol rheolaidd yn cwmpasu ystod o weithgareddau o waith coedwig i deithiau bywyd gwyllt. I gael mwy o wybodaeth ffoniwch Parc Gwledig Loggerheads 01352 810 614.



Dathlu 40 mlynedd fel Llwybr Cenedlaethol.



Dewch i gerdded

Fyddwch chi'n mwyhau cerdded yn y brynau, cerdded wrth y môr neu cerdded mewn grŵp o gwmpas eich strydoedd lleol? Hoffech chi golli pwysau, gwella eich ffithrwydd, gwella eich iechyd neu gyfarfod â phobl? Beth bynnag fo'r rheswm ymunwch ag un o'n teithiau!

Mae gennym raglen wythnosol a misol o deithiau byr a hirach ac mae iddyn nhw fanteision sylweddol.

Beth i'w wisgo?

Pâr o esgidiau cyfforddus yw'r unig gyfarpar sydd ei angen pan fyddwch yn dechrau cerdded am y tro cyntaf. Os bydd eich esgidiau'n dal i fod yn gyfforddus yna does dim angen unrhyw beth arall.

I gael mwy o wybodaeth ffoniwch 01745 356197

Fe sefydlwyd Llwybr Cenedlaethol Clawdd Offa ym mis Gorffennaf 1971. Fe sefydlodd lwybr cerdded pellter hir o 177 milltir ar hyd ffin Lloegr a Chymru o Gas-gwent i Brestatyn. Mae'r Llwybr yn seiliedig ar y gwrthglawdd o'r 8g a adeiladwyd gan y Brenin Offa o Fersia i nodi'r ffin rhwng Teyrnas Mersia, sy'n awr yn Ganolbarth Lloegr a Chymru.

Yn yr ardal hon mae Llwybr Clawdd Offa'n cynnwys y tirweddau ysbennnydd o gwmpas Llangollen a Tharren Eglwyseg. Mynydd Rhiwabon Llandegla ac yn dilyn cadwyn brynau ardderchog Bryniau Clwyd.

